Prifysgol Wrecsam
Wrexham University

# HYSBYSIAD PREIFATRWYDD AR GYFER CYFRANOGWYR YMCHWIL

Mae’r Hysbysiad hwn ar gyfer pobl sy’n cyfranogi, neu a wahoddwyd i gyfranogi mewn prosiect ymchwil academaidd yr ymgymerir ag ef gan fyfyrwyr Prifysgol Wrecsam a/neu staff (Ymchwilwyr Prifysgol Wrecsam). Dylech ddarllen yr hysbysiad hwn ochr yn ochr â’r daflen wybodaeth cyfranogwyr a ddarperir i chi er mwyn bod yn un o ymchwilwyr Prifysgol Wrecsam.

Mae’r Hysbysiad hwn yn egluro sut y bydd y Brifysgol yn casglu ac yn defnyddio eich data personol, beth yw eich hawliau o dan y ddeddfwriaeth gwarchod data, a sut i gysylltu â ni er mwyn i chi arfer yr hawliau hynny.

Ni yw’r rheolwr data ar gyfer data personol yr ydym yn ei brosesu amdanoch chi.

Mae’r hysbysiad hwn yn cydymffurfio gyda’r gofynion o dan y Ddeddf Gwarchod Data (DPA) a Rheoliadau Gwarchod Data Cyffredinol y DU (UKGDPR)

Rydym yn adolygu ein polisi preifatrwydd yn rheolaidd. Bydd unrhyw newidiadau a wnawn i'n polisi preifatrwydd yn y dyfodol yn cael eu rhoi ar y rhyngrwyd a’r fewnrwyd o dan llywodraethu gwybodaeth. Gallech hefyd gael eich hysbysu dros e-bost neu drwy’r post.

**Cefndir yr hysbysiad hwn**

Yn yr hysbysiad hwn, mae “Prifysgol”, “ni”, “ein” a “ni” yn cyfeirio at Brifysgol Wrecsam.

O ganlyniad i’ch cyfranogiad yn ein hymchwil, bydd Prifysgol Wrecsam yn dal eich data personol, h.y. gwybodaeth ar ffurf sy’n eich adnabod chi fel unigolyn [y cyfeirir ato’n aml fel “data” yn yr hysbysiad hwn]. Prifysgol Wrecsam yw rheolwr data yr wybodaeth mae’n ei chasglu a’i phrosesu fel y disgrifir yn yr hysbysiad hwn. Golyga hyn fod ganddi’r cyfrifoldeb cyfreithiol craidd i ddiogelu’r wybodaeth a sicrhau ei fod yn cael ei brosesu’n gyfreithlon. Mae’r gyfraith hon wedi’i nodi yn Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU (a elwir yn UKGDPR) a Deddf Diogelu Data 2018. Yn benodol, rhaid i Brifysgol Wrecsam;

- Gymryd camau er mwyn sicrhau bod y data mae’n ei brosesu yn fanwl gywir ac wedi’i ddiweddaru;
- Rhoi gwybodaeth eglur ynghylch y ffordd mae’n prosesu eich data, mewn hysbysiadau preifatrwydd fel hwn a’r daflen gyfranogi (y cyfeirir ati gyda’i gilydd yn yr adran hon fel “Hysbysiad Preifatrwydd”);
- Dim ond prosesu eich data at y pwrpasau penodol y’u disgrifir i chi yn y daflen wybodaeth a’r Hysbysiad Preifatrwydd ac ond yn rhannu eich data gyda thrydydd partïon fel y darperir ar eu cyfer mewn Hysbysiad Preifatrwydd a thaflen Wybodaeth. Caiff y sail gyfreithiol ar gyfer y prosesu hwn ei amlinellu o fewn yr Hysbysiad Preifatrwydd hwn;
- Cadw eich data’n ddiogel.

Mae gwybodaeth am eich hawliau gwarchod data fel testun data wedi’i nodi yn ail adran yr

Hysbysiad Preifatrwydd hwn.

**Sut a pham rydym yn casglu eich data personol**

Hoffem i chi gyfranogi neu i barhau gyda’ch cyfranogiad mewn ymchwil academaidd a wneir gan ymchwilwyr Prifysgol Wrecsam.

Mae “ymchwil” yn ffurf ar ymholiad disgybledig sy’n ceisio cyfrannu at gorff o wybodaeth neu ddamcaniaeth. Gall ymchwilwyr Prifysgol Wrecsam sy’n ymgymryd â’r ymchwil fod yn fyfyrwyr israddedig neu ôlraddedig (gweithio o dan oruchwyliaeth staff briodol), staff Prifysgol Wrecsam, neu gyfuniad o staff a myfyrwyr. Gall yr ymchwil gael ei gynnal gan ymchwilwyr Prifysgol Wrecsam yn unig, neu gall ymwneud ag ymchwilwyr Prifysgol Wrecsam sy’n gweithio mewn cydweithrediad gydag ymchwilwyr mewn sefydliadau eraill. Yn unol â phrosesau Prifysgol Wrecsam bydd ymchwilwyr Prifysgol Wrecsam ond yn ymgymryd ag ymchwil lle bydd canlyniad yr ymchwil ond o werth i’r gymdeithas a lle bydd yr ymchwil yn bodloni’r safonau neu’r gofynion moesegol perthnasol.

Mae’r daflen wybodaeth a roddwyd i chi yn amlinellu manylion yr astudiaeth ymchwil benodol. Mae hyn yn egluro pwrpas yr ymchwil, y meini prawf ar gyfer cyfranogi (h.y. pam eich bod yn meddwl eich bod yn berson addas i gymryd rhan), beth a olygir gan y cyfranogiad (h.y. beth ofynnir i chi ei wneud) a pha ddata y byddwn yn ei gasglu neu ei gynhyrchu a’i gadw yn ystod y prosiect ymchwil. Mae hefyd yn egluro sut y byddwn yn defnyddio eich data yn ein hallbynnau ymchwil ac yn gadael i chi wybod a fydd eich data fel arfer angen ei rannu mewn ffurf y byddai modd eich adnabod gydag unrhyw drydydd parti, megis cydweithredwyr o sefydliadau eraill.

Yn ogystal â’r data rydym yn ei gasglu gennych neu ei gynhyrchu drwy ryngweithiadau gyda chi fel rhan o’r gweithgaredd ymchwil, byddwn hefyd yn dal eich data personol o fewn dogfennaeth llywodraethiant prosiect (yn arbennig felly cytundebau cyfranogwyr neu ffurflenni caniatâd) a chofnodion o unrhyw gyfathrebiadau gyda chi dros e-bost neu drwy lythyr. Fel arfer bydd angen i’r rhain gael eu cadw at bwrpas archwilio hyd yn oed os ydych yn penderfynu peidio â chymryd rhan neu’n tynnu’n ôl o gyfranogiad yn ddiweddarach.

**Sut rydym yn gofalu am eich data**

Bydd Prifysgol Wrecsam yn dal y data rydym yn ei gasglu amdanoch chi ar ffurf copi caled mewn lleoliad diogel a hefyd ar rwydwaith ddiogel Prifysgol Wrecsam sydd wedi’i amddiffyn gan gyfrinair lle mae’n cael ei ddal yn electronig.

Ac eithrio lle mae wedi ei hanonymeiddio, bydd eich gwybodaeth bersonol ond yn cael ei chyrchu a’i defnyddio gan unigolion priodol, awdurdodedig a phan mae hyn yn angenrheidiol at bwrpas yr ymchwil neu bwrpas arall a ddynodwyd isod. Gall hyn gynnwys rhoi mynediad i staff Prifysgol Wrecsam neu eraill sy’n gyfrifol am fonitro a/neu archwilio’r astudiaeth, sydd angen sicrhau bod yr ymchwil yn cydymffurfio gyda’r rheoliadau perthnasol.

Mae taflen wybodaeth y cyfranogwr yn darparu gwybodaeth bellach ynghylch unrhyw

fesurau sy'n benodol i'r prosiect ymchwil a ddefnyddir i reoli mynediad at eich data neu leihau'r defnydd o'ch data mewn ffurf y gellid ei adnabod.

**Defnydd pellach o'ch data**

Fel arfer ni fyddwn ond yn defnyddio'r data y mae modd eich adnabod ohono at bwrpasau'r prosiect ymchwil penodol, ac ar gyfer monitro a gweithgareddau archwilio cysylltiedig yr ymgymerir â hwy gan unigolion awdurdodedig gyda chyfrifoldeb dros y gweithgareddau hynny. Os ydym yn bwriadu defnyddio eich data adnabyddadwy mewn unrhyw brosiect ymchwil arall cysylltiedig neu ar gyfer ymchwil dros gyfnod hirach o amser, bydd hyn yn cael ei egluro ar y daflen wybodaeth i gyfranogwyr.

Lle mae'r ymchwil yn arwain at i'ch data gael ei anonymeiddio gan ffurfio rhan o set data ymchwil ystadegol, mae'n bosib y byddwn yn ei storio yn ein harchif ymchwil a'i ddefnyddio (mewn ffurf anonymeiddiedig) ar gyfer ymchwil yn y dyfodol.

**Rhannu eich data**

Bydd gan ymchwilwyr Prifysgol Wrecsam fynediad at eich gwybodaeth bersonol ar ffurf adnabyddadwy fel y'i disgrifir yn y daflen wybodaeth cyfranogwyr. Os yw'n angenrheidiol at bwrpas y prosiect ymchwil i bobl eraill gael mynediad at eich gwybodaeth bersonol mewn ffurf adnabyddadwy, bydd hyn hefyd yn cael ei egluro yn y daflen wybodaeth i gyfranogwyr. Mae'n bosib mai dyma'r achos os ydym yn cynnal yr ymchwil mewn cydweithrediad gyda sefydliadau eraill (e.e. prifysgol arall neu gorff GIG), os ydym angen defnyddio gwasanaeth allanol (e.e. trawsgrifio) neu os yw ein gwaith yn cael ei fonitro neu ei archwilio gan sefydliad arall, megis sefydliad ar wahân sy'n darparu ariannu ar gyfer yr ymchwil neu sefydliad sy'n cydweithredu sydd â'i ofynion archwilio ei hun.

Os ydym yn rhannu eich data yn y ffordd yma, bydd trefniadau yn eu lle er wyn sicrhau bod y sefydliad arall yn cadw eich data'n ddiogel ac ond yn ei brosesu fel y mae'n angenrheidiol at y pwrpas penodol sy'n gysylltiedig â'r prosiect ymchwil.

**Cadw eich Data**

Mae'r daflen wybodaeth cyfranogwyr yn egluro am faint o amser y disgwylir y byddwn yn cadw eich data ar ffurf adnabyddadwy, a pham y byddwn yn ei gadw am y cyfnod hwn. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth am hyd y prosiect a ph'un a fydd yn angenrheidiol er mwyn cadw data mewn ffurf adnabyddadwy am y cyfan o'r cyfnod hwnnw. Mae hefyd yn eich hysbysu o unrhyw fwriad i gadw data adnabyddadwy am gyfnod hirach o amser, er enghraifft lle mae bwriad i gysylltu'r ymchwil hwn i allbynnau o brosiect arall, neu i astudio newidiadau i'w hystyried neu ddeilliannau dros gyfnod o amser.

Wrth osod cyfnodau cadw bydd ymchwilwyr Prifysgol Wrecsam yn cymryd i ystyriaeth unrhyw angen am gadw data mewn ffurf adnabyddadwy er mwyn eu galluogi i ddilysu eu hallbynnau ymchwil, er enghraifft os yw eu canlyniadau'n cael eu cwestiynu cyn neu wedi eu cyhoeddi, drwy adolygiad cyfoedion neu p'un a yw eu hymchwil yn ddarostyngedig i gael ei asesu neu ei arholi. Maent hefyd angen ystyried unrhyw ofynion sydd gan Brifysgol

Wrecsam o ran gwneud y data ar gael i'w archwilio. Fodd bynnag, dylai ymchwilwyr Prifysgol Wrecsam hefyd osod cyfnodau cadw fel na fydd y data'n cael ei gadw mewn ffurf adnewyddadwy pan nad yw bellach yn angenrheidiol naill ai at bwrpas ymchwil ei hun neu at bwrpasau cysylltiedig megis archwilio. Lle mae cyfnodau cadw hirach wedi eu hadnabod fel bod yn briodol, bydd hyn yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd er mwyn sicrhau ein bod ond yn cadw data adnabyddadwy pan mae'n angenrheidiol at bwrpasau ymchwil parhaus.

Bydd mesurau diogelwch a mesurau rheoli mynediad yn cael eu cymhwyso i ddata adnabyddadwy lle mae prosiect ymchwil yn gyflawn, a'n bod yn storio data ymchwil dim ond at bwrpas archwilio neu ddilysu.

**Sail gyfreithiol dros brosesu eich data**

Mae'r gyfraith yn nodi nad ydym ond yn gallu prosesu eich data personol os yw'r prosesu'n bodloni un o amodau prosesu yn Erthygl 6 GDPR. Os ydym yn prosesu data categori arbennig (h.y. data personol sy'n gysylltiedig gyda'ch ethnigrwydd, bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol, iechyd neu anabledd, data biometrig neu enetaidd, credoau crefyddol neu athronyddol, barn wleidyddol neu aelodaeth o undeb llafur), rhaid i'n gweithgareddau hefyd fodloni un o'r amodau yn Erthygl 9 GDPR. O dan ddeddfwriaeth gwarchod data, rydym angen egluro'r sail gyfreithiol dros ddal eich data , h.y. pa un o'r amodau hyn sy'n berthnasol.

Yn gyffredinol, pan fyddwn yn casglu ac yn prosesu eich data personol at bwrpas prosiect ymchwil academaidd mae'r amodau canlynol yn berthnasol:

- Erthygl 6.1(e) y GDPR, h.y. mae ein prosesu'n angenrheidiol ar gyfer perfformio tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd. Mae ymchwil yn dasg mae Prifysgol Wrecsam yn ei chyflawni er budd y cyhoedd, fel rhan o'n ffwythiant craidd fel prifysgol;
- Erthygl 9.2(i) o'r GDPR, h.y. mae ein gwaith prosesu'n angenrheidiol at bwrpas ymchwil neu bwrpas ystadegol (mae'r amod hwn hefyd yn berthnasol cyn belled â'n bod yn cymhwyso'r amddiffyniadau priodol er mwyn cadw eich data'n ddiogel ac yn diogelu eich buddiannau; disgrifir y rhain uchod).

Yn gyffredinol, dyw caniatâd ddim yn sail gyfreithiol o dan y ddeddfwriaeth gwarchod data ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth bersonol ar gyfer ymchwil. Mae hyn oherwydd ein bod ond yn gallu dibynnu ar eich caniatâd fel y sail ar gyfer prosesu data os ydym wastad eisiau bod angen gweithredu ar dynnu caniatâd yn ôl, drwy ddiddymu eich data o'n prosiectau ac allbynnau ymchwil. Yn aml ni fyddem yn gallu gwneud hyn yng nghyd-destun prosiect ymchwil, gan y gallai hyn effeithio ar ddilysrwydd ac uniondeb y broses ymchwil a/neu'r allbynnau o'r ymchwil.

Rydym yn gofyn am eich caniatâd i'ch cyfranogiad gweithredol yn yr ymchwil, a gallwch dynnu'r caniatâd hwn yn ei ôl ar unrhyw adeg. Er enghraifft, os ydym wedi gofyn i chi gymryd rhan mewn cyfweliadau, i gwblhau holiadur neu ymgymryd ag arsylwad, gallwch dynnu'n ôl o'r gweithgareddau hyn ar unrhyw bwynt. Nid yw'r caniatâd hwn i gyfranogi yn yr astudiaeth yn golygu ein bod yn dibynnu ar eich caniatâd fel y sail gyfreithiol dros ddefnyddio eich gwybodaeth yn barhaus, drwy gydol y prosiect ac yn yr allbynnau ymchwil. Os yn bosib, pan fyddwch yn tynnu'n ôl o gyfranogi yn y ffordd yma byddwn hefyd yn tynnu

eich data yn ôl o'r prosiect ymchwil, ond bydd hyn yn dibynnu ar ba gam rydym wedi'i gyrraedd yn y prosiect a sut mae eich data wedi cael ei ddefnyddio. Ni fyddwn yn gallu tynnu'n ôl y cyfan o'ch data o'r astudiaeth os fydd hyn yn cael effaith niweidiol ar uniondeb a dilysrwydd yr ymchwil. Hyd yn oed os ydym yn tynnu'n ôl o'r astudiaeth eich data sydd wedi cael ei gasglu neu ei gynhyrchu o fewn y prosiect ymchwil, fel arfer byddwn angen cadw copïau o'ch data o fewn dogfennaeth llywodraethiant y prosiect (e.e. cofnodion o ffurflenni caniatâd ac o bosib rhai cyfathrebiadau gyda chi).

Fodd bynnag, mae'n bosib y gofynnir i chi am ganiatâd ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth at bwrpas penodol fel a ganlyn:

- Os ydym angen cael mynediad at wybodaeth yn eich cofnodion meddygol at bwrpas yr ymchwil, mae'r gyfraith yn nodi na allwn ni wneud hyn gyda'ch caniatâd. Unwaith mae caniatâd wedi'i roi mae ein defnydd parhaus o'r wybodaeth yn dod o dan yr amodau yn y ddeddfwriaeth gwarchod data fel y disgrifir uchod;
- Os ydym yn bwriadu defnyddio eich data personol yn ein hallbynnau ymchwil mewn ffurf adnabyddadwy, ni fyddwn ond yn gwneud hyn os ydych chi'n rhoi caniatâd penodol i ni. Er enghraifft, byddwn yn gofyn am eich caniatâd i gynnwys eich llun neu eich enw mewn unrhyw adroddiadau ymchwil neu allbynnau eraill, ac i gynnwys unrhyw ffilm ohonoch chi mewn unrhyw ffilm i'w gynhyrchu fel allbwn o'r gwaith ymchwil. Gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg cyn cyhoeddi neu ddarlledu'r ffilm. Ni fydd gwrthod caniatâd neu dynnu caniatâd yn ôl yn effeithio ar sail gyfreithiol barhaus ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth ar gyfer yr ymchwil ei hun, a gwmpasir o fewn amodau'r ddeddfwriaeth gwarchod data fel y'i disgrifir uchod.

Bydd ymchwilwyr Prifysgol Wrecsam yn gofyn i chi lofnodi cytundeb cyfranogwr. Bydd hyn yn nodi unrhyw ganiatâd y gofynnir amdano ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth mewn ffordd benodol, a bydd hefyd yn gofyn i chi gadarnhau eich bod wedi cael mynediad i'r Hysbysiad hwn.

**Beth yw eich hawliau os ydych yn destun data?**

O dan ddeddfwriaeth Gwarchod Data, mae gennych nifer o hawliau o safbwynt eich data, yn ddibynnol ar y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r data hwnnw. Gan hynny, mae gennych:

- **Hawl i Wrthwynebu** - lle mae'r Brifysgol wedi defnyddio caniatâd fel sail gyfreithiol ar gyfer prosesu;
- **Hawl i gael Gwybod** - ynghylch sut mae'r Brifysgol yn casglu ac yn defnyddio eich data personol;
- **Hawl i gael Mynediad** - bod yn gallu cael mynediad at ddata personol mae'r Brifysgol yn ei ddal amdanoch chi;
- **Hawl i Gywiro** - er mwyn cywiro unrhyw wallau yn eich data personol a ddelir gennym;
- **Hawl i Waredu** - i gael eich anghofio drwy wneud cais am i'ch manylion gael eu gwaredu oddi ar ein systemau;
- **Hawl i Gyfyngu ar Brosesu** - cyfyngu ar brosesu eich data tra mae'n cael ei gywiro neu ei brosesu;

- **Hawl i Hygludedd Data** - i gludo eich data mewn fformat y gellir ei ddarllen gan beiriant a'i ddefnyddio'n gyffredin;
- **Hawliau sy'n gysylltiedig gyda Gwneud Penderfyniadau Awtomataidd** - gwrthwynebu i rai prosesau penodol a ddefnyddir gan y Brifysgol, gan gynnwys proffilio, marchnata'n unniongyrchol a gwneud penderfyniadau'n awtomatig.

**Pryderon a manylion cyswllt**

Pe bai gennych unrhyw bryderon o safbwynt y ffordd mae eich data personol yn cael ei brosesu neu os oes gennych ymholiad ynghylch yr hysbysiad hwn, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda'n Swyddog Gwarchod data ar DPO@wrexham.ac.uk

Ein cyfeiriad post cyffredinol yw Prifysgol Wrecsam, Ffordd yr Wyddgrug, Wrecsam, LL11 2AW

Gallwch hefyd fynegi pryderon neu gyflwyno cwynion i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, drwy gysylltu drwy'r manylion isod:

Swyddfa'r<br>
Comisiynydd<br>
Gwybodaeth,<br>
Wycliffe House<br>
W<br>
a<br>
t<br>
e<br>
r

L<br>
a<br>
n<br>
e

W<br>
i<br>
l<br>
m<br>
s<br>
l<br>
o<br>
w

C<br>
h<br>
e<br>
s<br>
h

i
r
e

S
K
9

5
A
F

Ffôn: 0303 123 1113
Gwefan:
www.ico.org.uk

**Sut allaf fi gael mwy o wybodaeth?**

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau ynghylch y polisi hwn, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda DPO@wrexham.ac.uk

Byddwn yn adolygu'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn rheolaidd a byddwn yn rhannu unrhyw ddiweddariadau ar y dudalen we hon. Cafodd yr hysbysiad preifatrwydd hwn ei ddiweddaru ddiwethaf ar 17/03/2026.